colegsirgâr colegceredigion

# DARLITHYDD ACHLYSUROL

**PECYN RECRIWTIO**

2022 - 2023




**YSBRYDOLI DYSGWYR**
**CYFLAWNI POTENSIAL**
**ENNILL RHAGORIAETH**




# CRYNODEB O'R RÔL

## Teitl y Swydd

Darlithydd Achlysurol

## Cyflog

Graddfa Darlithydd
£22,904 yn codi i £27,029
Graddfa Darlithydd (Cysylltiol)
£29,162 yn codi i £41,925

## Oriau'r Wythnos

Awr Achlysurol

## Contract

Contract Achlysurol - Dros dro tan fis Rhagfyr 2024

## Lleoliad

I'w gadarnhau

## Gwyliau Blynyddol

46 diwrnod o wyliau'r flwyddyn, gwyliau banc statudol a 5 diwrnod cau'r Coleg sef cyfanswm o 59 diwrnod o wyliau y flwyddyn

colegsirgâr colegceredigion

# Y COLEG

Mae dros 10,000 o ddysgwyr yn astudio yn y Coleg, gyda thua 3,000 yn astudio diplomâu galwedigaethol llawn amser neu ddarpariaeth Safon Uwch drydyddol. Mae yna dros 1200 o brentisiaid sy'n cael eu hariannu trwy'r consortiwm 'B-WBL' Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) a dros 900 o ddysgwyr addysg uwch wedi'u cofrestru gyda Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Mae gan y Coleg drosiant o tua £40M (Coleg Sir Gâr £34M a Choleg Ceredigion £6M). Mae AB yn cyfrif am oddeutu £20M, AU £5M, DSW £4M a gweithgareddau eraill (gan gynnwys masnachu, prosiectau, ymchwil a chyllid yr UE) £11M. Mae'r incwm masnachu yn cynnwys gweithredu fferm laeth fasnachol 700 erw gyda buches odro o 900. Mae gan y Coleg adeiladau rhagorol a chyfleusterau arbenigol ar nifer o'r campysau sy'n cynnwys campws fferm yn y Gelli Aur, Llandeilo, ac Ysgol Gelf Caerfyrddin sydd â hanes yn y dref sy'n dyddio'n ôl i 1854. Lleolir pencadlys y Coleg ar Gampws y Graig, Llanelli, lle mae canolfan Arloesi a Pherfformiad £4M yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd wrth ymyl cae chwarae 3G o faint llawn sydd newydd ei sefydlu. Mae cynlluniau uchelgeisiol hefyd ar y gweill i ailddatblygu campws Pibwrlwyd y Coleg yng Nghaerfyrddin gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Yng Ngheredigion, mae prosiect ar waith ar hyn o bryd i wella mannau cymdeithasol a dysgu myfyrwyr. Mae'r Coleg ar flaen y gad o ran hyrwyddo sgiliau a chyflogadwyedd ac mae'n arwain y prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau ar ran Llywodraeth Cymru ar draws Cymru. Ar y cyd â hyn, mae gan y Coleg hanes rhagorol o lwyddiant mewn cystadlaethau rhanbarthol, cenedlaethol a World Skills gyda dysgwyr yn cyrraedd pedair rownd derfynol y World Skills yn Calgary, Llundain, Sau Paulo ac Abu Dhabi ers 2009.








Mae Sir Gaerfyrddin yn rhannol drydyddol gyda phedair o ysgolion uwchradd partner 11-16 oed yn Llanelli. Mae gweddill y Sir a Sir Ceredigion yn gweithredu ysgolion chweched dosbarth. Mae partneriaethau rhagorol, a gydnabyddir yn genedlaethol, wedi'u sefydlu gydag ysgolion 11-16 ac 11-18 ar draws y rhanbarth ac mae dros 1,000 o ddisgyblion ysgol yn cael mynediad i ddarpariaeth alwedigaethol yn flynyddol. Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion wedi'u hintegreiddio'n ffurfiol ers 1 Awst 2017 ac o 2018-19 byddant yn cael eu hariannu a'u harolygu fel un Coleg. Fodd bynnag, maent yn parhau i fod yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda Choleg Ceredigion yn is-gwmni a berchenogir yn gyfan gwbl gan Goleg Sir Gâr. Ar hyn o bryd mae gan y colegau broffiliau ansawdd Estyn o 'Da' (Coleg Sir Gâr) a 'Digonol' (Coleg Ceredigion) yn deillio o arolygiadau a gynhaliwyd yn 2013.

# EICH BUDDION

## CWFANS GWYLIAU

Caiff staff cynnal 28 diwrnod o wyliau'r flwyddyn, gwyliau banc statudol a 5 diwrnod cau'r Coleg – hefyd byddwch yn cael 4 diwrnod ychwanegol o wyliau ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth.

Fel darlithydd, byddwch yn cael 46 diwrnod o wyliau, ynghyd â gwyliau banc a  phum diwrnod cau sef cyfanswm o 59 diwrnod o wyliau.

Mae staff Graddfa Rheolwyr yn cael 37 diwrnod o wyliau, ynghyd â gwyliau banc a 5 diwrnod cau sef cyfanswm o 50 diwrnod y flwyddyn – hefyd byddwch yn cael 4 diwrnod ychwanegol o wyliau ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth.

## CYNLLUN PENSIWN HAEL

Rydyn ni'n gweithredu cynllun pensiwn hynod o hael sy'n amrywio o 20% o gyfraniadau cyflogwr i unrhyw un sydd ar gynllun pensiwn llywodraeth leol a 23.68% ar gyfer y rheiny sydd ar y Cynllun Pensiwn Athrawon.

## DYSGU A DATBLYGU

Mae gennym ffocws a buddsoddiad yn nyheadau staff a myfyrwyr sy'n meithrin a grymuso unigolion i gymryd perchnogaeth dros eu dyfodol. Mae gennym raglen dysgu a datblygu proffesiynol wobrwyedig sy'n agored i bob aelod o staff ar draws y sefydliad. Anogir a chefnogir staff bob amser i ddilyn llwybrau dysgu proffesiynol sy'n ysbrydoli chwilfrydedd, yn eu datblygu fel unigolion ac yn gyrru'r sefydliad i flaen y gad o ran llwyddiant addysgol.

## LLES

Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion wedi ymrwymo i les yr holl fyfyrwyr a staff yn y coleg.  O ganlyniad, mae gennym amrywiol ffyrdd o gefnogi, dathlu a chydweithio gyda chydweithwyr ar draws bob un o'r campysau sy'n cynnwys; diwrnodau lles, tudalennau lles staff a buddion amrywiol eraill.

## PARCIO CEIR AM DDIM

Mae pob gweithiwr yn elwa ar faes parcio ceir am ddim ar y safle ar draws pob un o'r 7 campws..

## SEICLO I'R GWAITH

Rydyn ni'n gweithredu cynllun seiclo i'r gwaith er mwyn cynorthwyo gweithwyr i brynu beic a chyfarpar.

colegsirgâr colegceredigion

# YR HYN Y MAE EIN CYDWEITHWYR YN EI DDWEUD



*"Mae gweithio yn y sector AB yn rhoi cyfle i chi wneud gwahaniaeth gwirioneddol a thrawsnewid bywydau'r genhedlaeth nesaf. Trwy weithio mewn swydd o unrhyw fath yng Ngholeg Sir Gâr neu Goleg Ceredigion byddwch yn helpu i ysbrydoli dysgwyr, datblygu sgiliau, creu cyfleoedd a sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.''*

DR ANDREW CORNISH CEO/PRINCIPAL,
COLEG SIR GÂR A CHOLEG CEREDIGION

*"Tîm gwych i weithio fel rhan ohono. Mae pawb yn gyfeillgar a chroesawgar ac mae'r staff yn anhygoel. Mae'n rhan mor werthfawr o gymuned De Cymru sy'n cynrychioli Cymru mewn ffordd gadarnhaol a buddiol i bawb sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'r cwmni a'i weithwyr yn gweithio'n galed i newid bywydau'r rheiny sy'n buddsoddi amser ac ymdrech ynddynt eu hunain a Choleg Sir Gâr"*

Gweithiwr Cymorth TG

*"Hoffwn pe bawn i wedi dechrau gweithio yn y coleg yn syth bin. O bell ffordd, y cyflogwr gorau rwyf wedi gweithio iddo. Mae pawb yn gyfeillgar, yn barod eu sgwrs ac yn gefnogol i'w gilydd. Mae timau yn y coleg fel teulu. Sefydliad tryloyw iawn. Amgylchedd llawn hwyl, cyfeillgar. Fyddwn i ddim eisiau gweithio yn unrhyw le arall."*

Gweithiwr Cynorthwyydd Gweinyddol

colegsirgâr colegceredigion

# GWERTHOEDD AC YMDDYGIADAU

## PARCH

Byddwn ni:

- yn derbyn gwahaniaeth ac yn rhoi cyfle i bawb ffynnu;
- yn empathig i anghenion ein gilydd;
- yn gwrtais a charedig i’n gilydd;
- yn gefnogol ac yn gofalu am ein gilydd;
- yn barod ac yn fodlon i ymgysylltu’n gadarnhaol







## UNDOD

Byddwn ni:

- yn un tîm gyda set o gyrchnodau cyffredin a chyfeiriad unedig;
- yn ystyriol o’n hymddygiad a’n hiaith, a’i effaith ar eraill;
- yn ddwyieithog o ran ein cyfathrebu ac ymgysylltu;
- yn integredig gyda'n cymuned a'n partneriaid;
- yn dryloyw ym mhob agwedd ar ein gwaith.

## PROFFESIYNOLDEB

Byddwn ni:

- yn onest ac yn ymddwyn gyda chywirdeb;
- yn cael ein gyrru i ddarparu addysg a gwasanaeth cwsmer rhagorol;
- yn agored i dderbyn safbwyntiau gwahanol sy'n llywio ein penderfyniadau;
- yn sefydliad dysgu â natur chwilfrydig;
- yn gynaliadwy yn ein cynllunio a’n darpariaeth.



colegsirgâr colegceredigion

colegsirgâr colegceredigion

# Darlithydd Achlysurol | Coleg Sir Gar & Coleg Ceredigion

| | |
|---|---|
| **Cyflog** | Yn dechrau am £22,904 yn codi i £41,915 y flwyddyn |
| **Oriau'r Wythnos** | Awr Achlysurol |
| **Contract** | Contract Achlysurol - Dros dro tan fis Rhagfyr 2024 |
| **Lleoliad** | I'w gadarnhau |
| **Adrodd wrth** | Rheolwr Arloesi |

## Ynglŷn â'r rôl

Mae Uned Datblygu Busnes y Coleg wedi derbyn y contract i ddarparu Cronfa Ffyniant Gyffredin Sir Gaerfyrddin i gyflwyno sgiliau Gofal a sgiliau cysylltiedig i oedolion a chyflogeion yn ein rhanbarth.

Mae'r swydd yn darparu cyfle cyffrous a llawn her i athro rhagweithiol a dyfeisgar chwarae rôl bwysig wrth gyflwyno sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau gofal ar leoliadau aml-safle o fewn Sir Gaerfyrddin lle caiff y prosiect Skills 24 ei gyflwyno.

Mae'r rôl yn allweddol i gyflwyno targedau ein prosiect yn llwyddiannus ac fe fydd yn cefnogi a monitro gweithgarwch allgymorth tiwtoriaid cymunedol, yn ymgysylltu ag oedolion ac yn datblygu sgiliau.

Trwy'r amgylchedd ymgysylltiol a chymuned ganolog hwn, bydd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion wrth wraidd datblygu sgiliau newydd a chefnogi'r rheiny sydd am wella eu sgiliau presennol.

## Prif Gyfrifoldebau

- Ymgymryd â'r gwaith o addysgu, asesu a chydlynu rhaglenni astudio sy'n arwain at gymwysterau/ardystio
- Cyflwyno dysgu pwrpasol gyda dull arloesol er mwyn ennyn diddordeb oedolion sy'n anodd eu cyrraedd yn ein cymunedau
- Cysylltu'n agos â chydlynydd y prosiect er mwyn ymateb gyda modelau cyflwyno i fodloni anghenion unigolion

## Gofynion

- Gradd berthnasol neu gymhwyster cyfwerth
- Cymhwyster addysgu
- TGAU Saesneg ac Mathemateg - o leiaf Gradd C neu Lefel O cyfwerth
- Sgiliau llythrennedd a rhifedd da a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel ar lafar ac yn ysgrifenedig

PRINCESS ROYAL TRAINING AWARD 2022

disability confident COMMITTED

## Cyfrifoldebau Penodol Y Maes Cwricwlwm

- Ymgymryd â'r gwaith o addysgu, asesu a chydlynu rhaglenni astudio sy'n arwain at gymwysterau/ardystio yn un o'r meysydd canlynol o leiaf:

1. Sgiliau Rhifedd (Ardystiedig gan Agored Cymru)
2. TGAU Mathemateg
3. Sgiliau Hanfodol mewn Rhifedd (Lefelau E3 i 2)
4. Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu (Lefelau E3 i 1)
5. Sgiliau Gofal (Ardystiedig gan Agored Cymru)
6. Sgiliau Gofal Cymdeithasol (Ardystiedig gan Agored Cymru)
7. Cymorth Cyntaf (Cymhwyster Highfield)
8. Cymwysterau Iechyd a Diogelwch (Cymwysterau Highfield)
9. Lles (Cyrff dyfarnu amrywiol)
10. Iechyd Meddwl (Cymwysterau Highfield)
11. Hyfforddi'r Hyfforddwr (Amrywiol)
12. Ôl-ffitio (NOCN)
13. Sgiliau Gwyrdd / Sero Net (Amrywiol)
14. Tystysgrif mewn Rheolaeth Amgylcheddol (IEMA)

- Cyflwyno dysgu pwrpasol gyda dull arloesol er mwyn ennyn diddordeb oedolion sy'n anodd eu cyrraedd yn ein cymunedau
- Cysylltu'n agos â chydlynydd y prosiect er mwyn ymateb gyda modelau cyflwyno i fodloni anghenion unigolion
- Cyfrannu at gyfarfodydd y prosiect gan roi adborth ar gynnydd a materion sy'n codi.
- Cefnogi gyda marchnata a recriwtio yn ôl yr angen
- Cysylltu â staff Cymorth Technegol a/neu Hyfforddwyr/Arddangoswyr i sicrhau bod adnoddau effeithiol o ansawdd uchel yn cael eu cynhyrchu a'u rhannu â'r tîm ehangach
- Datblygu amgylchedd cefnogol sy'n creu profiad dysgwr unigryw i'r rhai mwyaf anodd eu cyrraedd yn ein cymuned
- Ysbrydoli a chefnogi'r ymgeisydd llwyddiannus gyda dilyniant ar raglenni 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn ôl yr angen

## Cyfrifoldebau Cyffredinol

- Gyfrannu at bob math o waith addysgol, gan gynnwys addysgu yn y dosbarth, gwaith tiwtorial a dyletswyddau estyn allan cysylltiedig, cyrsiau preswyl, agored a dysgu o bell a lleoliadau gwaith dysgwyr. Bydd hyn fel rheol yn golygu gwaith gweinyddu trefniadol cysylltiedig, paratoi ac asesu, dilysu mewnol, targedau dysgwyr ac olrhain, cefnogi dysgwyr a chyfrifoldebau cynghori lles ac academaidd priodol;
- Cyfrannu at reoli'r cwricwlwm o fewn maes eich rhaglen i gynnwys cyfweld a rhoi arweiniad, cynefino, asesu cychwynnol, a bodloni targedau ar gyfer cadw myfyrwyr, presenoldeb a chwblhau'n llwyddiannus;
- Cyfranogi a chyfrannu at agweddau ar ddatblygu'r cwricwlwm o fewn y gyfadran, y coleg a chydag ysgolion partner, sefydliadau addysgol eraill, budd-ddeiliaid a chyflogwyr;
- Cymryd rhan ym mhob agwedd ar systemau a chylch rheoli ansawdd y maes cwricwlwm a chadw atynt, gan gynnwys dilysu/cymedroli gwaith asesedig yn fewnol a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud o fewn y terfynau amser;
- Cyfrannu at adroddiad gwerthuso'r rhaglen ddysgu a diweddaru'r cynllun datblygu ansawdd yn rheolaidd;
- Cyflawni rôl dilysydd mewnol ar gyfer unedau bioleg ar gyrsiau Mynediad i Addysg Uwch;
- Cymryd rhan mewn asesu, cofnodi ac adrodd am waith a chynnydd dysgwyr a chyfathrebu ac ymgynghori â rhieni / gofalwyr dysgwyr a/neu gyflogwyr pan fo angen;
- Ble bo'n briodol, cysylltu â'r gofrestrfa/swyddfa arholiadau/swyddfa'r campws i weinyddu arholiadau ac asesiadau allanol yn effeithiol;
- Ble bo'n briodol, arolygu arholiadau ac asesiadau;
- Cynnal ymddygiad a disgyblaeth dda ymhlith yr holl ddysgwyr y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Cofnodi a monitro'r ymddygiad hwn yn unol â systemau a pholisïau'r coleg;
- Nodi unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu dysgwyr neu bobl sydd mewn perygl ac adrodd amdanynt wrth berson priodol;
- Cadw at weithdrefnau a phrotocolau iechyd a diogelwch y coleg ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys protocolau a gweithdrefnau ymweliadau addysgol, a chwblhau a diweddaru asesiadau risg priodol yn brydlon ble bo angen;
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â materion cwricwlaidd, ansawdd, gweinyddol neu gyfundrefnol;
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau marchnata a derbyn mewnol ac allanol, gan gynnwys nosweithiau agored, ymweliadau ag ysgolion, a chyfweliadau dysgwyr;
- Sicrhau bod y wybodaeth am y rhaglen/cwrs rydych yn gyfrifol amdani/amdano yn cael ei diweddaru gan ddefnyddio cronfa ddata'r coleg, y wefan a chynhyrchu deunyddiau marchnata addas;
- Cyfathrebu straeon newyddion da gyda'r adran farchnata i gynnal proffil uchel ar gyfer eich maes a'r coleg, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol;

- Rhannu cyfrifoldeb ar y cyd fel aelod o'r Gyfadran Safon Uwch a Mynediad ar gyfer:

1. datblygu a hyrwyddo Cynllun Strategol y Coleg;
2. bod yn ymwybodol o'r targedau meincnod ar gyfer eich meysydd cyfrifoldeb a chyfrannu at gyflawni'r rhain;
3. darparu gwybodaeth a chyngor i dîm rheoli'r gyfadran;
4. rheoli unrhyw adnoddau a gaiff eu pennu o fewn cyllideb y cytunwyd arni, a hynny mewn modd effeithiol ac effeithlon;
5. datblygu diwylliant o ddwyieithrwydd a chyfrwng Cymraeg o fewn eich cwricwlwm;
6. cyfrannu at gynyddu gweithgarwch masnachol sy'n arwain at lai o ddibyniaeth ar gyllid craidd;
7. sicrhau, fel aelod o dîm maes y Gyfadran, bod camau priodol yn cael eu cymryd i:

- weithredu polisïau a gweithdrefnau'r Coleg ynghylch cyfle cyfartal;
- cadw at weithdrefnau disgyblu a chwyno cymeradwy;

- Gweithredu mesurau y cytunwyd arnynt i fonitro a gwella ansawdd y profiad ar gyfer dysgwyr;
- Cynrychioli'r Coleg mewn unrhyw fforwm lleol, cenedlaethol neu ryngwladol ar gais yr Adran Weithredol;
- Gweithio gyda'r Brifathrawiaeth, yr Adran Weithredol a Rheolwyr Cyfadrannau i sicrhau bod y Coleg yn cyflawni ei nodau a'i amcanion, ei safonau ansawdd a'i dargedau perfformio;
- Cyflawni rôl y 'Tiwtor Personol' fel y nodir yn yr adran ganlynol;
- Ymgymryd â dyletswyddau perthnasol eraill fel y pennir yn rhesymol gan y Pennaeth, yn gymesur â graddfa'r swydd, yn y gweithle cychwynnol, mewn lleoliadau eraill yn y Coleg, mewn canolfannau estyn allan neu hyd yn oed ymrwymiadau rhyddfreinio dramor.

## Rôl y Tiwtor Personol

Mae'r grŵp tiwtorial yn uned sylfaenol yn nhrefniadaeth y Coleg.Felly, mae tiwtoriaid personol yn ganolog bwysig yn y broses o gyflwyno'r cwricwlwm cyfan. Disgwylir y bydd perthnasoedd cryf yn datblygu o fewn y grŵp tiwtor, er mwyn i'r dysgwyr allu tyfu mewn sicrwydd a chyfrifoldeb, datblygu arferion astudio a hamdden da, mwynhau cyfrannu at fywyd y Coleg a'r gymuned, a meithrin y gallu i wneud penderfyniadau synhwyrol.

Caiff y rhan fwyaf o staff eu neilltuo, lle mae hynny'n ymarferol bosibl, i grŵp o ddysgwyr sydd yn cynnwys pwnc arbenigol y tiwtor ymhlith eu maes astudio.

Bydd disgwyl i diwtoriaid personol:

- Gysylltu â'r Cyfarwyddwr Cymorth Dysgu wrth weithredu system gydlynol o diwtorialau personol ar draws y Coleg;
- Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer profiad cwricwlaidd priodol;
- Cwblhau a monitro Cytundebau Dysgu Unigol Myfyrwyr (ISLAs) i sicrhau cywirdeb;
- Mynd ati'n rheolaidd i fonitro, trafod ac adrodd ynghylch cynnydd y dysgwyr yn y grŵp ar sail gwybodaeth a ddarperir gan ddarlithwyr pwnc ac arweinwyr rhaglenni dysgu;
- Sicrhau bod set lawn o wybodaeth (h.y. bugeiliol a chymwysterau) yn cael ei chreu a'i diweddaru'n rheolaidd ar gyfer pob dysgwr yn y grŵp;
- Sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau arolygon monitro cwrs a bod y rhain yn cael eu bwydo i'r rhaglen Llais y Dysgwr;
- Llunio adroddiadau cynnydd dysgwyr yn ôl y gofyn a chyfrannu at waith Cynlluniau Gweithredu Unigol y dysgwyr;
- Monitro presenoldeb dysgwyr yn y grŵp ar sail y wybodaeth a ddarperir gan system gofrestru'r Coleg;
- Cadw at broses y coleg o ddisgyblu dysgwyr pan fo angen gan sicrhau bod y system GAR i yn cael ei diweddaru a bod cynlluniau gweithredu smart unigol yn cael eu creu a'u monitro;
- Ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid ynglŷn â chyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr;
- Mynychu cyfarfodydd tiwtor personol a sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn rheolaidd;
- Bod ar gael i drafod gyda dysgwyr ynglŷn â lles personol, a chyfeirio dysgwyr at asiantaethau priodol y tu mewn a'r tu allan i'r Coleg;
- Sicrhau bod dysgwyr yn gwbl ymwybodol o system y Coleg o ran cyfarwyddyd gyrfaol ac Addysg Uwch;
- Paratoi geirdaon ar gyfer AU neu gyflogaeth a lledaenu'r wybodaeth yn brydlon i'r partïon priodol.

## Gofynion Perfformio

**Cyfrifoldebau Proffesiynol**

Cadw at Reoliadau Cyngor Gweithlu Addysg Cymru 2015 a Chod Ymddygiad y Coleg.

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau staff darlithio o natur broffesiynol, o natur eang a byddant yn amrywio yn ôl profiad a chyfrifoldebau unigolion.

Disgwylir felly:

- Y byddwch yn brydlon ac wedi paratoi ar gyfer addysgu eich holl ddosbarthiadau.
- Y byddwch yn cadw at bolisïau Parch a Chyfle Cyfartal y coleg
- Bod gennych gyfrifoldeb i wella ansawdd y ddarpariaeth addysgol.
- Y bydd rhaid i chi ymdrechu i hyrwyddo dilyniant y dysgwr unigol trwy'r camau dysgu ac i fyd gwaith neu astudio pellach.
- Y byddwch yn cadw at y canllawiau a'r safonau proffesiynol a amlinellir yng Nghod Ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg.
- Y byddwch yn ddylanwad cadarnhaol gyda chydweithwyr a myfyrwyr.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Mae'n ofynnol eich bod yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus yn unol â pholisi'r Coleg sydd yn cynnwys:

- Gofyniad i ymgymryd â 30 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn (pro-rata ar gyfer staff rhan-amser)
- Mynd ati'n weithredol i ymroi i'ch gwerthusiad staff / proses rheoli ac adolygu perfformiad yn seiliedig ar asesiad o anghenion unigol ac anghenion y coleg.

# MANYLEB YR UNIGOLYN

| Criteria | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Gradd berthnasol neu gymhwyster cyfwerth | ✓ | |
| Cymhwyster addysgu | | ✓ |
| TGAU Saesneg  a Mathemateg - o leiaf Gradd C neu Lefel O cyfwerth | ✓ | |
| Tystiolaeth ddogfennol o Ddatblygiad Proffesiynol priodol | ✓ | |
| Profiad addysgu perthnasol | | ✓ |
| Profiad o weithio yn y sector gofal | | ✓ |
| Dealltwriaeth dda o faterion perthnasol mewn addysg ôl 16 | | ✓ |
| Hanes profedig o lefelau uchel o gyrhaeddiad dysgwyr | | ✓ |
| Ymwybyddiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol | | ✓ |
| Tystiolaeth o weithgareddau addysgu a dysgu arloesol | | ✓ |
| Tystiolaeth o olrhain a monitro perfformiad dysgwyr yn effeithiol | | ✓ |
| Profiad o gymryd rhan weithredol yng ngofal bugeiliol pobl ifanc | | ✓ |
| Sgiliau llythrennedd a rhifedd da a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel ar lafar ac yn ysgrifenedig | ✓ | |

# MANYLEB YR UNIGOLYN

| Criteria | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Dealltwriaeth gadarn o lythrennedd digidol | | ✓ |
| Sgiliau rhyngbersonol a threfniadol ardderchog | ✓ | |
| Y gallu i weithio'n gytûn gyda dysgwyr a chydweithwyr | ✓ | |
| Y gallu i weithio dan bwysau ac i derfynau amser tynn | ✓ | |
| Prydlondeb ardderchog a'r gallu i weithio'n hyblyg | ✓ | |
| Trwydded yrru gyfredol | | ✓ |
| Parodrwydd i yrru bws mini'r coleg | | ✓ |
| Parodrwydd i gyfrannu at ddatblygu gweithgareddau allgyrsiol | | ✓ |

# MANYLEB BERSONOL

## Y GYMRAEG

| | |
|---|---|
| Llefaredd Cymraeg (Gwrando/Siarad) | Level 1-4 |
| Llythrennedd Cymraeg (Ysgrifennu/Darllen) | Level 1-4 |

## NODIADAU

- Fel amod o'ch cyflogaeth, efallai y bydd gofyn i chi gyflawni dyletswyddau rhesymol eraill sy'n gymesur â'ch gradd, yn ôl cais y Pennaeth.
- Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddilys fel ar Medi 2023. Arfer y Coleg yw archwilio disgrifiadau swyddi gweithwyr o bryd i'w gilydd a'u diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r swydd a wneir, neu er mwyn cynnwys pa newidiadau bynnag y cytunir arnynt.
- Bwriad y disgrifiad swydd hwn yw diffinio amlinelliad o'r gofynion bras ac nid yw'n ddiffiniad llwyr o'r swydd.
- Fel amod o'ch cyflogaeth mae'n ofynnol i chi gael eich arfarnu fel y cytunir yng Nghynllun Arfarnu Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion.

***Mae croeso i bobl wneud cais am swyddi yn Gymraeg, ac ni fydd ceisiadau a wneir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg.***

***Mae Coleg Sir Gâr | Coleg Ceredigion yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag hon yn gynnar, pe baem yn derbyn nifer fawr o geisiadau digonol. O ganlyniad, rydym yn cynghori pob ymgeisydd i wneud cais cyn gynted â phosibl i osgoi unrhyw siom.***

# CANLLAW I WNEUD CAIS

## SUT I WNEUD CAIS

Fe'ch cynghorir i ddarllen y disgrifiad swydd a manyleb yr unigolyn yn drylwyr cyn cwblhau eich cais. Bydd pob penderfyniad ynghylch llunio rhestr fer wedi'i seilio ar eich ffurflen gais a sut rydych yn cyfeirio'n ôl at y disgrifiad swydd a manyleb yr unigolyn.Ni fydd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn gwneud rhagdybiaethau amdanoch chi a'ch cymwysterau, felly, mae'n hollbwysig eich bod yn cyfeirio'ch cais at y meini prawf hanfodol a dymunol, gan hefyd restru eich cymwysterau ar eich ffurflen gais.

***Mae croeso i bobl wneud cais am swyddi yn Gymraeg, ac ni fydd ceisiadau a wneir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg.***

## CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, rydym yn ysbrydoli dysgwyr i gyflawni potensial ac ennill rhagoriaeth. I wneud hyn, mae angen y gweithwyr gorau arnom i barhau â'n diwylliant o barch, undod a phroffesiynoldeb.Rydym yn falch o fod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal ac felly'n croesawu ceisiadau o bob cefndir ac ardal o'r gymuned i'r coleg.

## HYDERUS O RAN ANABLEDD

Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn falch o fod yn gyflogwr hyderus o ran anabledd ymroddedig. O ganlyniad, rydym yn sicrhau bod ein proses recriwtio yn gwbl gynhwysol ac yn hygyrch i bawb, yn cyfathrebu ac yn hyrwyddo pob cyfle, yn rhagweld ac yn darparu addasiadau rhesymol, yn cefnogi gweithwyr presennol sy'n datblygu anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor i aros yn y gwaith, ac yn cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n bodloni gofynion hanfodol y swydd.

## MWY O WYBODAETH

Os oes angen copi papur o'n ffurflen gais a'n disgrifiad swydd arnoch chi, anfonwch e-bost i HRrecruitment@colegsirgar.ac.uk, neu fel arall, ffoniwch 01554 748000.

I gael trafodaeth anffurfiol am y rôl hon, anfonwch e-bost i: HRRecruitment@colegsirgar.ac.uk er mwyn trefnu amser cyfleus i siarad â'n Rheolwr Recriwtio. Fel arall, gallwch chi ffonio 01554 748159 i siarad â ni dros y ffôn. Os dymunwch wneud cais am y swydd hon, cwblhewch ffurflen gais y coleg drwy ein tudalen gyrfaoedd, www.colegsirgar.pinpointhq.com.

Coleg Sir Gar, Graig Campus, Sandy Road, Llanelli, SA15 4DN - 01554 748000